**(HCC 574)**

**Cofnodion cyfarfod o Gyfarwyddwyr Hybu Cig Cymru a gynhaliwyd am 10.30am yn Nhŷ Rheidol, Parc Merlin, Aberystwyth, ddydd Gwener 9 Mai 2014**

**Yn Bresennol:** Dai Davies (Cadeirydd)
Will Haresign, Bethan Wynne Jones, Gwynn Angell Jones, Prys Morgan, Graham Probert, Glyn Roberts, Richard Rogers, Richard Tudor, Wyn Williams, John Yeomans

**Trwy Wahoddiad:** Helen Minnice-Smith, Pennaeth y Gangen Amaethyddiaeth, Tir Uchel a Strategaeth Wledig, Llywodraeth Cymru
Alison Wright, Calland Wright Consulting Cyf.

**Yno hefyd:** Gwyn Howells (Prif Weithredwr)
Siôn Aron Jones (Rheolwr Datblygu'r Diwydiant)
Alan Morris (Rheolwr Cyfathrebu)
Bryan Regan (Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol)

Julie Davies-Jones (Ysgrifenyddiaeth)

1. **Croeso a Sylwadau'r Cadeirydd**

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad llafar am ddigwyddiadau a chyfarfodydd allweddol y bu'n eu mynychu ers y cyfarfod blaenorol:-

*Mawrth 2014*

Bu'r Cadeirydd yn nigwyddiad blynyddol Undeb Amaethwyr Cymru yn Nhŷ'r Arglwyddi i ddathlu cynhyrchion bwyd Cymru. Daeth llawer o arglwyddi a gwleidyddion i'r digwyddiad. Hefyd, croesawodd Undeb Amaethwyr Cymru ddiplomyddion o Lysgenhadaeth Rwsia i'r dathliad a chafwyd trafodaethau ynghylch y rhagolygon ar gyfer dechrau allforio cig coch i Rwsia.

Bu'r Cadeirydd yng nghynhadledd DairyCo Cymru yn Aberystwyth.

Mynychodd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr seremoni wobrwyo gyntaf Dewi Sant, ar wahoddiad y Prif Weinidog, i ddathlu cyflawniadau nodedig gan bobl yng Nghymru.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gary Haggaty, Llywodraeth Cymru.

3. **Datganiad o Fuddiannau**

Nodwyd Datganiadau o Fuddiannau fel a ganlyn:-

Trafodaeth a allai ddigwydd mewn perthynas â Rheoli Credyd - John Brereton, Prys Morgan a Wyn Williams.

4. **I dderbyn a chymeradwyo cofnodion cyfarfod y Bwrdd a gynhaliwyd ddydd Gwener 7 Mawrth 2014 (HCC 574)**

Cymerwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Gwener 7 Mawrth 2014 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn ac yna'u llofnodi gan y Cadeirydd.

5. **Materion yn codi**

*Strategaeth y DU ar gyfer technolegau amaethyddol*

Dywedodd Rheolwr Datblygu'r Diwydiant fod y Catalydd Amaeth-Dechnoleg a gefnogir gan Lywodraeth y DG bellach yn agored ar gyfer ceisiadau i gynorthwyo busnesau a'r byd academaidd i ddatblygu atebion arloesol i'r heriau sy'n wynebu'r sector amaeth-dechnoleg.

Deallwyd bod yna ddwy gystadleuaeth Catalydd Amaeth-Dechnoleg bob blwyddyn sy'n dyfarnu grantiau ar gyfer astudiaethau dichonoldeb ymchwil cyn-ddiwydiannol cyfnod cynnar, ymchwil diwydiannol, ac astudiaethau dichonoldeb cyn-arbrofol cyfnod hwyr a datblygu arbrofol. Bydd y Catalydd Amaeth-Dechnoleg sy'n werth £70m yn ariannu cynigion yn ymwneud â chynhyrchu cnydau a da byw; a'r heriau sy'n wynebu prosesu bwyd blaen-ffrwd, os yw'r ateb i'w gael mewn cynhyrchu cynradd. Roedd HCC yn cefnogi ceisiadau i'r Catalydd Amaeth-Dechnoleg yn ogystal ag ymchwilio i gyfleoedd ar gyfer ymgysylltu pellach er budd y gadwyn cyflenwi cig coch yng Nghymru.

*Yr Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a'r Labordai Milfeddygol (AHVLA), Aberystwyth*

Nodwyd y byddai'r AVHLA yn symud allan o'r Ganolfan yn ystod mis Gorffennaf 2014. Roedd ffyrdd o gadw'r Ganolfan ar agor yn cael eu hystyried ar hyn o bryd.

6. **Adroddiadau HCC**

a. *Adroddiad Gweithgareddau (HCC 567)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

*Ysgoloriaeth HCC*

Lansiwyd Ysgoloriaeth HCC 2014 ar 16 Ebrill 2014. Gwnaed cais gan y Rheolwr Datblygu'r Diwydiant i'r Bwrdd am gymorth i asesu darpar

ymgeiswyr. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau oedd 20 Mehefin 2014, ac roedd gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â gwneud cais ar gael ar wefan Gorfforaethol HCC www.hccmpw.org.uk

*Allforio*

Nodwyd bod HCC wedi cynnal ymarfer caffael ar gyfer penodi asiantau ar gyfer y marchnadoedd allforio a oedd yn bodoli yn yr UE. Penodwyd Jeff Martin ar gyfer yr Eidal a Patricia Czerniak ar gyfer yr Almaen. Ni phenderfynwyd eto ar y penodiadau ar gyfer Ffrainc a Benelwcs. Byddai'r Bwrdd yn cael diweddariad yn y cyfarfod nesaf.

b. *Bwletin y Farchnad (HCC 568)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Mynegwyd pryderon gan y Bwrdd ynghylch y gostyngiad parhaus ym mhrisiau cig eidion ym Mhrydain. Nodwyd taw'r prif reswm am y dirywiad yn y farchnad oedd bod mwy o lawer o gig eidion yn cael ei fewnforio i'r DG o Weriniaeth Iwerddon, bod mwy yn cael ei gynhyrchu gartref, llai yn cael ei allforio a llai o alw amdano gan y defnyddwyr.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai HCC yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r diwydiant cig eidion yng Nghymru a thu hwnt.

Cytunwyd hefyd i baratoi papur briffio ar y sefyllfa i'r Gweinidog.

c. *Ariannol – Incwm a Gwariant a'r Fantolen tan 31 Mawrth 2014 (HCC 569)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen a chafodd ei grynhoi gan y Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol.

Nodwyd bod cyfrifon HCC tan 31 Mawrth 2014 yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Gofynnwyd i aelodau'r Bwrdd lenwi ffurflen datganiad i roi gwybodaeth sydd yn ofynnol ei datgelu i gydymffurfio ag Adran 412 Deddf Cwmnïau 2006 ar gyfer y cyfnod hyd at 31 Mawrth 2014. Byddai'r wybodaeth yn cael ei datgelu yn adran datganiadau ariannol HCC 2013 / 2014.

*Cyfraniadau Ardoll Cynhyrchwyr*

Cytunwyd i edrych ar ffyrdd o ddiogelu cyfraniadau Ardoll cynhyrchwyr o safbwynt cyfrifon cleientiaid os digwydd i ladd-dai roi'r gorau i fasnachu.

d. *Digwyddiadau i Ddod (HCC 570)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

7. **I dderbyn papur ar werthiannau Cig Oen yn ystod Ymgyrch Hysbysebu Cig Oen Cymru PGI 2013 (HCC 571)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Cytunwyd y dylid diweddaru'r papur â gwybodaeth ychwanegol am yr effaith ar werthiannau cig oen yn gyffredinol yn ystod y cyfnod a'r prisiau a dderbyniodd y cynhyrchwyr.

8. **I dderbyn diweddariad llafar am Ddosbarthu Ardoll Cig Coch Prydain**

Nid oedd unrhyw beth i'w adrodd.

Cynhelid cyfarfod nesaf y fforwm Ardoll Cig Coch (AHDB, HCC, LMNCI, QMS) ar 27 Mai 2014.

9. **I dderbyn diweddariad llafar ar EIDCymru – y gronfa ddata ar gyfer symud defaid**

Roedd Llywodraeth Cymru wrthi ar hyn o bryd yn ymgynghori ar "EIDCymru: system electronig ar gyfer cofnodi symudiadau defaid a geifr - adnabod defaid a llacio'r rheolau lladd".

Roedd trafodaethau'n parhau rhwng HCC a Llywodraeth Cymru ynghylch HCC yn goruchwylio gwasanaeth biwro ar gyfer EIDCymru.

10. **I dderbyn llinell amser ar gyfer yr adolygiad o'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Cig Coch Cymru (HCC 572)**

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Byddai'r ddogfen, a gafodd ei chyhoeddi a'i lansio yn flaenorol ym mis Ebrill 2009 yn cael ei hadolygu, ei hadnewyddu a'i datblygu gan HCC yn unol â Strategaeth Amaethyddiaeth Llywodraeth Cymru, Adroddiad Kevin Roberts ar yr Adolygiad o Gadernid Ffermio yng Nghymru a Chynllun Gweithredu'r Llywodraeth ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014 – 2020.

Roedd y gwaith wedi dechrau, a'r amserlen ddrafft ar gyfer yr adolygiad oedd:-

| **2014** | **Gweithgaredd** |
|---|---|
| Mehefin - Medi | Casglu gwybodaeth / ymgynghoriad anffurfiol |
| Medi / Hydref | Drafft cyntaf ar gyfer ymgynghoriad â Bwrdd HCC |

| | |
|---|---|
| Tachwedd | Drafft ar gyfer ymgynghoriad â'r Gweinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd |
| **2015** | |
| Chwefror | Ymgynghoriad ffurfiol â'r diwydiant |
| Ebrill | Hysbysu'r Gweinidog am ganlyniad yr ymgynghori a pharatoi drafft terfynol |

Bydd gan y Bwrdd gyfle i gynnig sylwadau a mewnbwn ynglŷn â'r ddogfen maes o law.

11. **Y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

a. *I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod yr Is-bwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Gwener 7 Mawrth 2014*

Rhoddodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg adroddiad llafar ar y materion a drafodwyd yn y cyfarfod.

b. *I dderbyn y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Gwener 8 Tachwedd 2013 (HCC 573)*

Cymerwyd bod yr uchod wedi'i ddarllen.

Cymerwyd bod y cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg a gynhaliwyd ddydd Gwener 8 Tachwedd 2013 wedi'u darllen, a chawsant eu derbyn gan y Bwrdd.

12. **Unrhyw fater arall**

*Is-frandiau Cig Oen Cymru*

Dywedwyd bod Is-adran Datblygu Bwyd a'r Farchnad Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwaith ymgynghorol mewn perthynas â gwneud cais am Statws Enw Bwyd Gwarchodedig ar gyfer amryw o eitemau bwyd gan gynnwys is-frandiau Cig Oen yng Nghymru.

Hyd yma, ni chafwyd unrhyw ymgynghori â HCC, sef gwarcheidwaid brand Cig Oen Cymru PGI.

Mynegodd y Bwrdd bryder y gallai symud ymlaen â'r ceisiadau mewn ffordd a oedd yn ymddangos yn anhrefnus danseilio brand Cig Oen Cymru PGI.

Cytunwyd y dylai HCC fynegi'r pryderon i Is-adran Fwyd Llywodraeth Cymru.

*Tendr Consortiwm Prynu Cymru a Chig Oen Cymru PGI a Chig Eidion Cymru PGI mewn sefydliadau Awdurdodau Lleol ac Iechyd*

Cytunwyd y dylid darparu diweddariad am gaffael bwyd gan y sector cyhoeddus mewn perthynas â chig coch yn y cyfarfod nesaf.

*Cais Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi: Cynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru*

Dywedodd y Prif Weithredwr y gellid cael tanwariant o bosibl o fewn Cynllun Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi o dan y Cynllun Datblygu Gwledig presennol. Felly, gwnaed y cynnig o gyllid ychwanegol i brosiectau sy'n bodoli, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

O ystyried hyn, roedd HCC wedi datblygu amrywiad prosiect fel ychwanegiad at y prosiect Datblygu Technoleg a Throsglwyddo i Ymarfer, Cyfathrebu a Hyfforddi a chafodd hyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w ystyried. Roedd y cais yn cynnwys prosiectau ar wybodaeth am y farchnad, gwelliant genetig, sicrhau'r iechyd gorau i anifeiliaid; a chasglu data electronig a'i ddefnyddio yn y sector defaid.

*Hollti carcasau mamogiaid dau-ddant*

Cytunwyd y dylid darparu diweddariad ynglŷn â'r uchod ar gyfer y cyfarfod nesaf.

*Cais i EFSA ar gyfer bioleihäwr i gyfyngu gwaredu stoc trig i'r fferm*

Nodwyd bod FSA wedi gwrthod y cais am ei fod yn credu nad oedd y system yn gwbl gyfyngedig.

Roedd gwaith arbrofol pellach yn cael ei wneud ym Mhrifysgol Bangor gyda golwg ar ailgyflwyno'r cais i EFSA maes o law.

13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

Dydd Llun 7 Gorffennaf 2014.

**Cyfarfod preifat a chyfrinachol o'r Bwrdd**

14. *I dderbyn adroddiad llafar am gyfarfod y Pwyllgor Taliadau a gynhaliwyd ddydd Gwener 9 Mai 2014. Cofnodion ar wahân.*

Dal yr eitem yn ôl – cyfrinachedd masnachol.

**Llofnodwyd…………………………….**
**Cadeirydd HCC**